

Addysg Gymraeg  
yn Sir Fynwy

Welsh medium  
Education in  
Monmouthshire



Bilingual from the  
beginning  
Dwyieithog o'r  
dechrau

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr  
Information for parents & carers



## Croeso!

Prif amcan y daflen hon yw cyflwyno gwybodaeth am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod ynghyd â manteision cyffredinol dwyieithrwydd. Mae wedi'i thargedu ar gyfer pobl Sir Fynwy ac yn seiliedig ar brofiadau rhieni lleol.

Penderfynu ar addysg eich plentyn fydd un o'r dewisi-adau pwysicaf a wnewch fel rhiant. Cofiwch fod cyngor a chefnogaeth ar gael gan lu o fudiadau sy'n gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg wrth i chi bwysu a mesur eich dewisi-adau. Hyderwn felly y bydd y daflen yma'n codi cwr y llen ar yr ystod presennol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a geir yn Sir Fynwy ac yn eich ysbrydoli i ymchwilio ymhellach. Gall nifer cynyddol o rieni'r ardal dystio mai profiad gwerthfawr a chadarnhaol oedd cyflwyno'r Gymraeg i'w plant. Ewch amdani – wnewch chi ddim difaru!



## Welcome!

This leaflet's main objective is to provide information about Monmouthshire's current Welsh-medium provision and the wider advantages of bilingualism. It's targeted at the people of Monmouthshire and based on the experiences of local parents. As a parent, deciding on your child's education will be one of the most important decisions that you will ever make. Remember that you can seek advice and support from a number of organisations who work to promote the Welsh language as you weigh up your options. We hope that this leaflet will give you an overview of the Welsh-medium provision currently available in Monmouthshire and inspire you to carry out your own personal research. An increasing number of the county's parents can testify that introducing the Welsh language to their child has been a positive and worthwhile experience.

Go for it – you won't regret it!



## Beth yw manteision bod yn ddwyieithog?

Mae dysgu siarad Cymraeg yn sgil ychwanegol fydd yn rhoi mantais i'ch plentyn wrth dyfu'n hŷn: • Bydd eich plentyn yn medru mwynhau dau ddiwylliant sy'n cyfoethogi eu profiadau ac ehangu'u gorwelion.

- Mae dwyieithrwydd yn gwneud dysgu ieithoedd tramor yn haws o lawer! Bydd eich plentyn yn siarad dwy iaith yn rhugl cyn dechrau ysgol uwchradd. Ni fydd ych- wanegu ieithoedd eraill yn broblem!
- Ar y cyfan mae disgyblion mewn ysgolion Cymraeg yn perfformio o leiaf mor dda a disgyblion mewn ysgolion Saesneg ymhob pwnc, gan gynnwys Saesneg.
- Mae dwyieithrwydd yn arwain at hyblygrwydd a sensitifrwydd meddwl ynghyd â'r gallu i feddwl yn fwy creadigol. Mae siaradwyr dwyieithog hefyd yn tueddu i wneud yn well mewn profion IQ!
  - Mae ymchwilwyr o Ganada wedi profi fod dwyieithrwydd yn cael effaith gadarnhaol ar yr ymennydd trwy'i gadw'n weithgar ac hyd yn oed yn helpu i leihau'r tebygolrwydd o gael dementia.
- Cyfleoedd byd gwaith: mae cyflogwyr yn gynyddol edrych am weithlu sydd yn meddu ar sgiliau cyflawn dwyieithog, a sgiliau iaith ehangach.

### Cofiwch!

Nid yw medru mwy nag un iaith yn beth anghyffredin – mae rhwng 60% a 75% o boblogaeth y byd yn ddwyieithog.

## What are the benefits of being bilingual?

Learning to speak Welsh is a valuable extra skill which will give your child a head start:

- With the opportunity to speak Welsh your child will benefit from the broader horizons of two cultures.
- Bilingual children also find foreign languages easier to learn! Your child will have two languages under their belt by the time they get to secondary school and won't be phased by a third or fourth language.
- On average pupils attending Welsh medium schools perform at least as well as their peers at English medium schools in all subjects, including English.
  - Bilingualism leads to flexibility of thinking, more creativethinking and improved sensitivity. Bilingual people also tend to do better at IQ tests compared with monolin- gual people!
- Researchers from Canada have demonstrated that bilingualism has a positive effect on the brain by keeping it active later in life and has even been shown to reduce the risk of dementia.
- Opportunities in the workplace – employers are increasingly looking to employ staff possessing comprehensive skills in both Welsh and English, and a wider appetite for languages.


### Remember!

The ability to speak more than one language isn't uncommon. Between 60% and 75% of the world's population is bilingual.

#### Cyfeiriadau ~ References

Bialystok, E. (2011), "Reshaping the Mind: The Benefits of Bilingualism", Canadian Journal of Experimental Psychology, Vol. 65, No. 4, 229–235  
Alladi, S. et al. (2013), "Bilingualism delays age at onset of dementia, independent of education and immigration status", Neurology, 81(22):1938-44

# Ysgolion ~ Schools



Free transport is provided to the nearest WM catchment school

Darperir cludiant am ddim i'r ysgol AG agosaf o fewn y dalgylch



## Ysgolion Uwchradd ~ Secondary Schools

1. Ysgol Gyfun Gwynllyw	Folly Road, Trevethin, Pontypool, NP4 8JD	01495 750405 <a href="#">Email</a> <a href="#">Website</a>
2. Ysgol Gyfun Gwent Is Coed	Ffordd Dyffryn, Dyffryn, Casnewydd, NP10 8BX	01633 851614 <a href="#">Email</a> <a href="#">Website</a>

## Cylchoedd Ti a Fi ~ Parent and Toddler Groups

Cyfle gwych i blant, newydd anedig hyd at oed ysgol, a'u rhieni gwrdd unwaith yr wythnos i gymdeithasu, rhannu profiadau ac i chwarae gyda'i gilydd mewn awyrgylch anffurfiol Gymraeg.

Offering children, from birth to compulsory school age, and their parents an opportunity to meet once a week to socialise, share experiences and to play together in an informal Welsh environment.

Cylch Ti A Fi Y Fenni (Abergavenny)

Cylch Ti A Fi Cil-Y-Coed (Caldicot)

### Cylch Meithrin - Playgroup

Sesiynau gofal ac addysg ddyddiol i blant 2 - 5 mlwydd oed

Daily sessional care and education for children 2 - 5 years old

Cylch Meithrin Y Fenni (Abergavenny)

Cylch Meithrin Y Ffin (Caldicot)

### Cymraeg i Blant

Cymraeg i Blant provide various rhyme time events, baby massage and other activities throughout Monmouthshire.

## Ysgolion Cynradd - Primary Schools

1. Ysgol Gymraeg Y Fenni & Uned Feithrin / Nursery Unit	St David's Road, Abergavenny, NP7 6HF	01873 852388
2. Ysgol Gymraeg Y Ffin & Uned Feithrin / Nursery Unit	Sandy Lane, Caldicot, NP26 4NQ	01291 420331
3. Ysgol Gymraeg Trefynwy	Rockfield Road, Monmouth, NP25 5BA	01633 644508

Cyngor Sir Fynwy / Monmouthshire County Council



## Cwestiynau cyffredin: cyngor gan rhieni

Bydd fy mhlentyn yn colli'r cyfle i wneud ffrindiau 'lleol'.

"Wrth edrych nôl, mae hyn yn llai o bryder nag yr oeddwn wedi'i dybio'n wreiddiol. Mae fy mhlant wedi gwneud ffrindiau lleol da mewn clybiau a gweithgareddau ar ôl ysgol."

Beth os nad ydw i'n siarad Cymraeg?  
Sut allu i helpu gyda gwaith cartref?

"Na phoenwch! Bydd yr ysgol yn eich cefnogi pob cam o'r ffordd gan ddeall bod 95% o rieni yn ddi-Gymraeg yn ardal yr hen Went. Mae'r athrawon yn barod iawn i gynnig unrhyw gymorth sydd ei angen. Mae nifer o fudiadau a gwefannau ar gael er mwyn eich cefnogi."



Beth am gludiant?

"Roeddwn i'n poeni'n fawr am hyn i ddechrau ond mae fy mab yn mwynhau'r cyfle ar y siwrnai i ddal lan gyda'i ffrindiau. Mae'r sir yn darparu bws am ddim i blant sy'n byw dros 1.5 milltir\* o'r ysgol gynradd."

Sut bydda i'n dod i nabod rhieni eraill os bydd fy mhlant yn mynd ar fws i'r ysgol?

"Byddwch chi ddim ar ben eich hun! Mae cymdeithasau rhieni ac athrawon cryf i helpu wneud ffrindiau ymysg rhieni eraill."

## Common concerns: parents respond

My child will lose the opportunity to make local friends.

"Looking back, this was less of a problem than I might have anticipated. My children have made good friends locally through clubs and after school activities."



What if I don't speak Welsh?  
How can I help with homework?

"Don't worry! The school will support you every step of the way - understanding that 95% of parents in the old Gwent don't speak Welsh. Teachers are very willing to help in any way and homework instructions are bilingual until your child is able to translate. There are also many organisations and websites can turn to for help."you

How will I get to know other parents if my children go to school on the bus?

"You're not alone! Welsh medium schools' PTAs are usually very strong and provide a great forum for making friends."

What about transport?

"I really worried about this initially but my son enjoys the chance to chat to friends on the bus on the way to school. The county provides a free bus service for children who live more than 1.5 miles\* from the primary school

\* a dros 2 filltir o'r ysgol uwchradd  
\* and more than 2 miles from the secondary school

## Mudiadau lleol

Mae'r Gymraeg ar waith yn Sir Fynwy!  
Dyma fanylion mudiadau eraill sydd yn  
gweithio i hybu'r defnydd o'r iaith:

### Cymraeg i Oedolion: Canolfan Gwent

- Mae'r Ganolfan yn cynllunio a darparu rhaglen gynhwysfawr o gyrsiau i apelio at ddysgwyr o bob lefel!
- Offering a comprehensive range of courses to appeal to learners at all levels!



01495 333 710

welsh@coleggwent.ac.uk

[www.learnwelsh.coleggwent.ac.uk](http://www.learnwelsh.coleggwent.ac.uk)

### Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy

- Mudiad sy'n hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.

An initiative to increase and promote the use of Welsh in the community

01495 755 861

[swiawnwg.rmiffiethnsi@armor](mailto:swiawnwg.rmiffiethnsi@armor)

[ocrygmru/home](http://ocrygmru/home)

[menterbgtm.org](http://menterbgtm.org)



### Mudiad Meithrin

- Mudiad Gwirfoddol sy'n ceisio rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy'r Gymraeg.
- A voluntary organisation that aims to give every child in Wales the opportunity to benefit from early years services and experiences in Welsh.

Vicky Cotter



07792 952107

[vicky.cotter@meithrin.co.uk](mailto:vicky.cotter@meithrin.co.uk)

[www.meithrin.co.uk](http://www.meithrin.co.uk)

Cymdeithasau Cymraeg / Welsh Societies  
Cyfle i bobl o bob oedran gymdeithasu yn  
y Gymraeg. Croeso mawr i ddysgwyr! A  
chance for people of all ages to socialise  
in Welsh. Learners very welcome!

Cas-gwent a'r cyffiniau / Chepstow & area

<http://cymgymcasgwent.weebly.com/>

Trefynwy / Monmouth

<http://www.cymdeithasgymraegtrefynwy.org.uk/>

Using your Welsh in Monmouthshire!  
Local organisations that promote the  
use of the language:

## Local organisations

Mae Hwb Gofal Sir Fynwy darparu gwybodaeth i deuluoedd lleol am gofal plant, darpariaeth blynyddol cynnar, gwasanaethau eraill, gweithgareddau hamdden a llawer mwy.

Monmouthshire Childcare Hub provides information to local families about childcare, early years provision, support services, local events, leisure activities and much more.

01633 644527

[Email](#) / [Website](#) / [Facebook](#)

### Urdd Gobaith Cymru

Mudiad cyffrous a deinamig i blant a phobl ifanc! Cynigir gweithgareddau amrywiol i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr, gan gynnwys cyrsiau preswyl, chwaraeon a llawer mwy.

An exciting and dynamic movement for children and young people! A variety of exciting activities are offered for Welsh speakers and learners, including residential courses, sports and much more.

Angharad Wyn Jones  
01495 3501155 /752589

[Email](#)  
[Website](#)



### RhAG

Cymdeithas genedlaethol i gefnogi rhieni sy'n dymuno addysg Gymraeg i'w plant.

Parents for Welsh Medium Education supports parents who would like their children to be taught in Welsh.

[Website](#)

